

Fi yw Fi:

Cynllun Gwers
Hygyrch



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cyflwyniad

Mae'r cynlluniau gwersi hyn wedi'u creu fel rhan o brosiect "Fi yw Fi" Comisiynydd Plant Cymru — prosiect sy'n dathlu hunaniaeth.

Yn y wers hon, bydd ffocws ar hawliau penodol plant. Bydd y gwersi yn canolbwyntio ar:

- Erthygl 2: Mae gan bawb yr hawliau hyn, waeth beth yw'r sefyllfa

Gellir defnyddio'r wers hon fel gwersi unigol neu fel rhan o'r Dasg Arbennig a osodwyd i Lysgenhadon. Efallai hoffwch ddefnyddio elfennau o'r cynlluniau gwersi sydd ar gyfer CA2 neu CA3 hefyd, sydd ar gael ar ein gwefan.

Cyn i'r wers ddechrau, mae'n bosib y byddwch chi am gyflwyno Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, drwy ddangos llun o'r Comisiynydd i'r plant. Gallwch wneud hyn trwy ddweud

"Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Swydd Sally yw gwneud yn siŵr fod holl blant Cymru'n tyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel."



Fi yw Fi: Amdana i

Cwestiynau Allwedol:

- Ydyn ni i gyd yr un peth?
- Ydyn ni i gyd yn hoffi'r un pethau?
- Beth mae hunaniaeth yn ei olygu?

Gwers	Gwybodaeth Ychwanegol / Addasiadau / Adnoddau
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Eglurwch wrth y disgyblion</p> <p><i>"Heddiw, byddwn ni'n dysgu am hawliau plant.</i></p> <p><i>Hawliau plant yw'r pethau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.</i></p> <p><i>Heddiw, byddwn ni'n meddwl am ein hunaniaeth ac yn dysgu am Erthygl 2: mae gan bawb hawliau, waeth beth yw'r sefyllfa."</i></p> <p>Eglurwch beth mae hunaniaeth yn ei olygu i'r dosbarth.</p> <p>Chwaraewch gêm fach i gefnogi gwaith meddwl y disgyblion.</p> <p>"Gwneud Sŵn"</p> <p>Eglurwch wrth y disgyblion y byddwch chi'n dweud brawddeg, ac os yw'r frawddeg yn eu disgrifio nhw, dylen nhw "wneud sŵn".</p> <p>Defnyddiwch frawddegau sy'n disgrifio'r disgyblion yn eich dosbarth, fel:</p> <p>"Mae gen i wallt brown"</p> <p>"Dw i'n hoffi nofio"</p> <p>Cefnogwch y disgyblion yn y gêm drwy gydnabod nodweddion tebyg a gwahanol yn eich dosbarth.</p> <p>Rydyn ni i gyd yn wahanol, ac weithiau rydyn ni'n cael ein trin yn wahanol.</p>	<p>Defnyddiwch ein cerdyn symbol i gefnogi dysgu'r disgyblion.</p> <p>Rhowch y gofod/offer sydd eu hangen ar ddisgyblion i gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Mae'n bosib y bydd angen gwneud rhai addasiadau; gallai hyn gynnwys rhoi sgarff i bob disgybl ei symud yn lle gwneud sŵn.</p>

<p>Prif Weithgaredd:</p> <p>Eglurwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n paentio eu hunan-bortread ac yn cynnwys pethau sy'n ffurfio eu hunaniaeth.</p> <p>Rhowch ddeunyddiau i'r disgyblion arlunio eu hunan-bortread eu hunain.</p>	<p>Gallech gefnogi gwaith meddwl eich disgyblion drwy roi lluniau iddyn nhw sy'n cynrychioli rhannau o'u hunaniaeth er mwyn eu cynnwys yn eu portread.</p> <p>Ymestyniad: gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i rywun yn y dosbarth sydd â rhywbeth tebyg iddyn nhw.</p>
<p>Myfyrio:</p> <p>Dewch â'r disgyblion yn ôl at ei gilydd, a gofynnwch iddyn nhw rannu eu portread gyda gweddill y dosbarth.</p> <p>Cymerwch amser i dynnu sylw at nodweddion tebyg yn y dosbarth, gofynnwch gwestiynau i'r disgyblion am y gwahaniaethau maen nhw'n gallu eu gweld ac a oedd ganddyn nhw rywbeth yn gyffredin gyda disgybl arall.</p> <p>Atgoffwch y disgyblion eich bod chi wedi bod yn siarad am Erthygl 2.</p> <p>Mae Erthygl 2 yn un o'ch Hawliau Plant. Hawliau plant yw'r pethau sydd eu hangen arnoch chi i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.</p>	